Bridgend County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



# Un Cyngor yn Gweithio Gyda’n Gilydd i Wella Bywydau

## Cynllun Corfforaethol 2018-2022 wedi’i adolygu ar gyfer 2019-2020

# Cyflwyniad

## Croeso i gynllun corfforaethol diwygiedig y Cyngor ar gyfer 2019-20.

Mae’r Cyngor yn cyflawni neu’n galluogi llawer o gannoedd o wasanaethau ledled yr holl gymunedau amrywiol yn sir Pen-y-bont ar Ogwr. Nid yw’r cynllun corfforaethol hwn yn ceisio cynnwys pob un o’r holl wasanaethau y mae’r Cyngor yn eu cyflawni neu a fydd yn eu cyflawni yn y blynyddoedd i ddod.

Yr hyn y mae’n ei wneud yw nodi ein hamcanion llesiant: y canlyniadau tymor hir yr ydym ni’n dymuno eu sicrhau i’r sir ac i’r bobl y mae’n fraint i ni eu gwasanaethu. Rydym yn dymuno cyfrannu at le y mae pobl wrth eu boddau yn byw, gweithio, astudio a chyflawni busnes ynddo, lle mae gan bobl y sgiliau a’r cymwysterau sydd eu hangen arnynt i wella eu cyfleoedd bywyd, i fod yn iach ac i gael synnwyr o lesiant ac annibyniaeth.

Mae gwasanaethau cyhoeddus a chynghorau’n enwedig yn mynd drwy gyfnod o gyni cyllidol parhaus, ac nid ydym ni wedi ein heithrio o hyn. Rydym wedi wynebu gostyngiadau yn ein cyllid yn flynyddol ar adeg pan fo costau’n cynyddu’n barhaus, a phan fo anghenion a galw mewn rhannau o’n cymuned yn cynyddu, yn ogystal â chyfrifoldebau statudol newydd nad ydynt yn cael eu hariannu gan amlaf. Mae’n rhaid i ni fod yn onest gyda’n cymunedau a’n partneriaid yn erbyn y cefndir hwn, gan ddweud na all y Cyngor bellach gyflawni pob un o’r gwasanaethau yr oedd yn eu cynnig yn y gorffennol nac i’r un lefel neu ansawdd â’r blynyddoedd a fu. Fodd bynnag, rydym yn dal i fod wedi ymrwymo i wneud y defnydd gorau o’n hadnoddau i gynorthwyo a diogelu’r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ac i greu sir economaidd gadarn sy’n diwallu anghenion ein dinasyddion yn y dyfodol.

Trwy adolygu’r cynllun hwn ar gyfer 2019-20, rydym wedi datblygu ein hamcanion, ein nodau a’n targedau llesiant ymhellach ac wedi cyflwyno cyfres o ddangosyddion newydd. Er mwyn canolbwyntio’n well ar fodloni ein hamcanion, rydym wedi symleiddio ein nodau, gan gael gwared ar y rhai yr ydym yn eu hystyried yn ‘fusnes fel arfer’ ac wedi datblygu mesurau newydd sy’n cefnogi ein hegwyddorion cynaliadwyedd ac yn eu symud yn eu blaenau.

Mae manylion ein cynnydd ar gael yn ein Hadroddiad Blynyddol. Mae ein hadroddiadau blaenorol ar gael yn www.bridgend.gov.uk.

Rydym yn croesawu eich sylwadau ar y cynllun hwn. Gallwch roi eich adborth drwy:

Ein gwefan: www.bridgend.gov.uk

Instagram yn www.instagram.com/BridgendCBC/

Facebook yn www.facebook.com/CBSPenybont/

Twitter: @CBSPenybont

E-bost i talktous@bridgend.gov.uk

Neu drwy ysgrifennu at y Tîm Perfformiad Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB



Y Cynghorydd Huw David
Arweinydd y Cyngor

Mark Shephard
Prif Weithredwr Dros Dro



# Cynllun Corfforaethol **2019 – 20**

## CYNNWYS


Adran **1**: ein **Gweledigaeth**

Adran **2**: ein **Hegwyddorion a'n Gwerthoedd**

Adran **3**: cipolwg ar **Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

Adran **4**: ein **Hamcanion Llesiant**

Adran **5**: rheoli **ein Cyllideb**

Adran **6**: **Democratiaeth** a **Phartneriaeth**

Adran **7**: ein **Cynllun Corfforaethol** ar **Dudalen**

# Adran 1: ein Gweledigaeth

“ Un cyngor yn gweithio gyda’n gilydd i wella bywydau ”

# Adran 2: ein Hegwyddorion a’n Gwerthoedd

Ceir nifer o egwyddorion allweddol sy’n sail i’r ffordd yr ydym yn gweithio. Maent yn amlygu’r pwysigrwydd o weithio mewn partneriaeth gyda’n dinasyddion, ein cymunedau a sefydliadau eraill i ddatblygu a darparu gwasanaethau cynaliadwy. Gyda’n gilydd, byddwn yn nodi ac yn diwallu angen lleol yn y modd gorau y gallwn.

O fewn yr egwyddorion hyn, rydym wedi ymsefydlu’r egwyddor o Ddatblygu Cynaliadwy, yn cyd-fynd â’r pum ffordd o weithio, fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.

| **Egwyddorion Datblygu Cynaliadwy** |  |  |  |  |  |
|---|---|---|---|---|---|
| | Hirdymor | Atal | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
| Cynorthwyo cymunedau a phobl i greu eu datrysiadau eu hunain a lleihau dibyniaeth ar y Cyngor. |  | | | | |
| Canolbwyntio adnoddau sy’n lleihau ar y cymunedau a’r unigolion sydd â’r anghenion mwyaf. |  | | | | |
| Defnyddio gwybodaeth dda gan ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau i lywio’i benderfyniadau. |  | | | | |
| Ysgogi a datblygu gallu ymhlith y trydydd sector i adnabod anghenion lleol ac ymateb iddynt. |  | | | | |
| Peidio â gadael i ansicrwydd ynghylch dyfodol gwasanaethau cyhoeddus atal cydweithio ystyrlon a phragmatig â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus. |  | | | | |
| Gweithio fel un Cyngor ac annog gwahanol rannau o’r sefydliad i beidio â datblygu prosesau lluosog neu ddulliau sy’n wahanol heb fod angen. |  | | | | |
| Trawsnewid y sefydliad a llawer o’i wasanaethau i gyflawni gostyngiadau i’r gyllideb ariannol yn ogystal â gwelliannau. |  | | | | |

**Ein gwerthoedd** sy’n cynrychioli’r hyn yr ydym yn sefyll drosto ac yn dylanwadu ar y ffordd yr ydym ni’n gweithio:

**Teg** – gan ystyried anghenion a sefyllfaoedd pawb
**Uchelgeisiol** – yn ceisio gwella’r hyn a wnawn ac yn anelu at ragoriaeth o hyd
**Canolbwyntio ar ddinasyddion** – cofio ein bod yma i wasanaethu ein cymunedau lleol
**Effeithlon** – trwy ddarparu gwasanaethau sy’n rhoi gwerth am arian

# Adran 3: cipolwg ar Sir Pen-y-bont ar Ogwr

## Mewn Rhifau



| | |
|---|---|
| Poblogaeth | 144,300 |
| Arwynebedd | 98.5 milltir sgwâr |
| Aelwydydd | 61,484 |
| Pris Tŷ Cyfartalog | £149,212 (Mynegai Prisiau Tai y DU: Mehefin 2018) |
| Busnesau | 4,085 |
| Pobl mewn Cyflogaeth | 71.6% (Mehefin 2018) |
| Cyflog cyfartalog trigolion | £26,624 (cyfartaledd Cymru £26,306) |

## Addysg

| | |
|---|---|
| Ysgolion babanod | 2 |
| Ysgolion Iau | 1 |
| Ysgolion cynradd | 40 |
| Ysgolion uwchradd | 8 |
| Ysgolion Eglwys | 6 |
| Ysgolion Arbennig | 2 |
| Darpariaeth Amgen | 1 |

## Cynrychiolaeth

| | |
|---|---|
| Wardiau | 39 |
| Cynghorwyr | 54 |
| ACau Etholaeth | 2 |
| ACau Rhanbarthol | 4 |
| ASau | 2 |

## Hamdden a Llesiant

| | |
|---|---|
| Canolfannau Bywyd | 5 |
| Pyllau Nofio | 5 |
| Canolfannau Chwaraeon | 8 |
| Gwasanaethau llyfrgell | 11 |

## Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| Cartrefi Gofal Ychwanegol | 3 |
| Uned Ailalluogi | 1 |
| Canolfan Adnoddau ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth | 1 |

## Digartrefedd

| | |
|---|---|
| Hostelau i bobl ddigartref | 2 |
| Llochesi cam-drin domestig | 2 |
| Darpariaeth i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd | 1 |
| Cynlluniau llety â chymorth a dros dro | 6 |

Rydym yn datblygu, yn rheoli ac yn cynnal **280 hectar** o fannau agored, gan gynnwys mannau chwarae i blant, meysydd chwaraeon, tir comin, lleiniau priffordd, tirweddau a nodweddion garddwriaethol.



## Cyfanswm Incwm y Cyngor (2019-20)



| | |
|---|---|
| Treth Gyngor | £79.002 miliwn |
| Ardrethi Annomestig | £46.452 miliwn |
| Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru) | £145.354 miliwn |
| Cyllid arall | £149.262 miliwn |
| Cyfanswm Incwm Gros | £420.070 miliwn |


Mae gennym **4,400** o staff cyfwerth ag amser llawn yn darparu gwasanaethau sy'n cynnwys: Gofal cymdeithasol, diogelu ein hoedolion a'n plant mwyaf agored i niwed; addysg, cynllunio a rheoli adeiladu, cymorth tai, cynnal priffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, gwastraff ac ailgylchu, glanhau a diogelwch strydoedd, parciau, diogelu'r amgylchedd ac adnoddau naturiol, meysydd chwarae, hylendid bwyd, trwyddedu, arolygwyr iechyd a diogelwch, casglu refeniw a gweinyddu budd-daliadau, etholiadau, chwaraeon, celfyddydau a llyfrgelloedd, cynorthwyo busnes a thwristiaeth, digwyddiadau arbennig a gwyliau.

# Adran 4: ein **Hamcanion Llesiant**

Ymhlith y pwysau sy’n deillio o alw cynyddol a llai o adnoddau, byddwn yn cadw pwyslais eglur ar ein blaenoriaethau ar gyfer ein cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac yng Nghymru, nawr ac yn y dyfodol.

Mae’r ddogfen hon yn nodi’n eglur gyfres fach o flaenoriaethau pwysig a hirdymor. Ein hamcanion llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yw’r tair blaenoriaeth hyn ac maent yn nodi ein cyfraniadau at fodloni saith nod cenedlaethol y Ddeddf.

Dyma ein hamcanion gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 hefyd.




Mae’r cynllun hwn yn nodi pam mai’r rhain yw ein hamcanion llesiant ac yn amlinellu sut yr ydym yn bwriadu gwneud cynnydd arnynt.

Mae manylion ynghylch sut yr ydym eisoes wedi gwneud cynnydd tuag at yr amcanion hyn ar gael yn ein Hadroddiad Blynyddol.

## Amcan Llesiant 1:

# Cefnogi Economi Lwyddiannus

Mae hyn yn golygu y byddwn yn cymryd camau i wneud y sir yn lle da i gynnal busnes ac i bobl fyw, gweithio, astudio a dod ar ymweliad, ac i sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar wella sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y sir.

## Ein Nodau Llesiant

- Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo.
- Creu amodau ar gyfer twf a menter.
- Creu cymunedau llwyddiannus.

## Pam y mae hyn yn bwysig

Mae ein dinasyddion wedi dweud wrthym fod economi lewyrchus leol yn un o'u prif flaenoriaethau. Rydym eisiau datblygu sir lle y mae gan bobl fwy o gyfleoedd i gael swyddi ystyrlon, i ddatblygu gyrfa, ac i wella eu hincwm teuluol a'u hamgylchiadau.

Rydym yn gwybod bod lefelau ffyniant uwch yn hybu iechyd a lles ac yn creu cymunedau mwy cydnerth sydd angen llai o wasanaethau. I gael cydnerthedd yn y tymor hir, mae angen i ganol ein trefi a'n busnesau fod yn broffidiol, creu cyfoeth, darparu swyddi gwell, denu buddsoddiad, gwella sgiliau ac annog pobl i ymweld â'r sir.

Yn rhan o'r economi werdd, mae'r Cyngor yn parhau i weithio tuag at economi carbon isel drwy ein cynlluniau gwresogi carbon isel yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr ac yng Nghwm Llynfi.

Rydym yn credu bod addysg yn parhau i fod y dull pwysicaf er mwyn gwella cyfleoedd bywyd a chydnerthedd pobl ifanc. Mae ein ffyniant dyfodol yn y tymor hir yn dibynnu ar sgiliau a gwybodaeth ein cymunedau.

## Ein Rhaglenni Allweddol i gefnogi'r amcan llesiant hwn

- Y Fargen Ddinesig – rhaglen gyfalaf yw hon y mae'r Cyngor ynghyd â'r cynghorau cyfagos yn ne-ddwyrain Cymru wedi ei sicrhau gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Bydd rhaglen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gwerth £1.28 biliwn yn cynnig amrywiaeth o raglenni a fydd yn gwella cysylltedd, seilwaith ffisegol a digidol yn ogystal â llywodraethu busnes rhanbarthol yn ystod y 10-15 mlynedd nesaf. Bwriedir i'r Fargen ddarparu 25,000 o swyddi ychwanegol ar draws y rhanbarth.

- Adolygiad Strategol o Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 – mae'r rhaglen yn gwerthuso'r ddarpariaeth addysg ôl-16 a'r cwricwlwm sydd ar gael i sicrhau bod opsiynau eglur ar gael i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i ddysgwyr yn y fwrdeistref sirol.

- Rhaglen Economi Lwyddiannus – mae'r rhaglen hon yn cynnwys cynlluniau adfywio a datblygu lleol allweddol ar draws y sir. Ym Mhorthcawl, mae hyn yn cynnwys camau cychwynnol datblygu maes parcio Salt Lake, marchnata'r tir a glustnodwyd ar gyfer y siop manwerthu, a buddsoddi'r

cyfalaf a dderbynnir yng nghamau adfywio'r dyfodol fel ailddatblygu maes parcio Hillsboro Place a'r amddiffynfeydd rhag llifogydd angenrheidiol ar hyd y rhodfa ddwyreiniol. Mae cynlluniau eraill yn cynnwys ailddatblygiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr a thrawsnewid Neuadd y Dref Maesteg yn ganolfan gelfyddydol a diwylliannol.

Yn ogystal â hynny, byddwn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd a gynigir gan strategaethau a rhaglenni ariannu adfywio eraill, gan gynnwys dod â newid gwirioneddol yn y cymoedd drwy Dasglu'r Cymoedd, a byddwn yn lobïo dros brosiectau trawsnewidiol megis croesfan rheilffordd Pencoed.

- Mae aliniad Grantiau Llywodraeth Cymru yn cefnogi dull 'Un Weledigaeth' Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cynnig y sail ar gyfer dull strategol o ymdrin â'n hagenda Ymyrraeth Gynnar, Atal a Chymorth. Byddwn yn canolbwyntio ar wella canlyniadau i bobl sy'n byw bywydau cymhleth trwy gynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau cymorth integredig gwell, trwy leihau dyblygiad, a thrwy wella rhyng-gysylltiadau rhyngddynt.

## Pwy fydd yn ein helpu?

Cymdeithasau Tai a Landlordiaid Preifat; Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr; partneriaid y Fargen Ddinesig; Coleg Penybont a darparwyr hyfforddiant; ysgolion; Gyrfa Cymru; a'r Ganolfan Byd Gwaith.

## Y camau y byddwn yn eu cymryd i fodloni ein hamcanion llesiant

| I helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Parhau i weithio gyda Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas Caerdydd a phrosiectau lleol a arweinir gan CBS Pen-y-bont ar Ogwr i helpu i lunio cyfleoedd cyflogaeth a datblygu gweithlu medrus i ddiwallu anghenion yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cynnig prentisiaethau o ansawdd uchel ar gyfer pob oedran. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Mwy Cyfartal |
| Gweithio gyda Thasglu'r Cymoedd Llywodraeth Cymru i greu cyfleoedd gorau ar gyfer buddsoddi yn ein cymoedd er mwyn cynyddu ffyniant economaidd. (Menter gan Lywodraeth Cymru yw Tasglu'r Cymoedd sydd â'r nod o gyflwyno newid economaidd yng Nghymoedd y De drwy greu swyddi o ansawdd da a helpu pobl i gael gafael ar sgiliau.) | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |
| Gweithio gydag unigolion a theuluoedd sy'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar, sy'n dioddef tlodi mewn gwaith, yn wynebu rhwystrau i weithio neu sydd mewn perygl o dlodi, i wella'u cyfleoedd gwaith. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Mwy Cyfartal |
| Gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i ddatblygu strategaeth trechu tlodi ac alinio ein hymdrechion gwrth-dlodi'n well er mwyn targedu ardaloedd lle y mae cyfran gynyddol o aelwydydd di-waith â phlant. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Iachach<br>✓ Mwy Cyfartal |
| Gweithio gydag ysgolion i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad oes ganddynt yr hawl i brydau ysgol am ddim a gwella canlyniadau dysgwyr ar gyfer grwpiau eraill sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal a gofalwyr ifanc. | ✓ Cydnerth<br>✓ Mwy Cyfartal |
| Datblygu ymhellach strategaethau i gynorthwyo pobl ifanc sy'n fwy abl a thalentog na'u cyfoedion i'w helpu i gyrraedd eu potensial llawn. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |

| | |
|---|---|
| Cwblhau'r adolygiad a'r ymgynghoriad ar yr Adolygiad Strategol o Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 erbyn diwedd mis Mawrth 2020. | ✓ Cydnerth<br>✓ Mwy Cyfartal<br>✓ Cydlynus |
| Cynorthwyo datblygiad y sgiliau codio ar gyfer ein pobl ifanc trwy gyflwyno'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol i'n holl ysgolion erbyn mis Mawrth 2020. | ✓ Cydnerth<br>✓ Mwy Cyfartal<br>✓ Cydlynus |

| I greu amodau ar gyfer twf a menter, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Cyflawni Rhaglen Cyrchfan Porthcawl sy'n Canolbwyntio ar Fuddsoddi i dyfu gwerth twristiaeth yn yr economi, cynyddu cyflogaeth a chyfleoedd busnes, a chefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol, chwaraeon a busnes. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydlynus<br>✓ Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |
| Cyfrannu at ddatblygiad y cynllun busnes a phrosiectau rhanbarthol penodol ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gyda'r nod o ddod â mwy o fuddsoddiad a rheolaeth economaidd i'r ardal leol. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |
| Cefnogi Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr i gyflawni ei gynllun datblygu a'i raglen o ddigwyddiadau ar gyfer 2018-2019. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |
| Parhau i wneud cynnydd ar ddatblygu Cynlluniau Gwresogi carbon isel yng Nghwm Llynfi (Caerau) a Thref Pen-y-bont ar Ogwr a datblygu'r achos busnes dros y Cynllun Gwresogi arloesol er mwyn defnyddio ffynhonnell wres naturiol danddaearol i wresogi cartrefi. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |
| Cynnal adolygiad llawn a datblygu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. | ✓ Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang<br>✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |

| I greu cymunedau llwyddiannus, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Buddsoddi yng nghanol ein trefi i wella cyfleusterau presennol a darparu cyfleusterau newydd, a bwrw ymlaen ag amrywiaeth o gynlluniau datblygu. Mae hyn yn cynnwys bwrw ymlaen â'r amrywiaeth o gynlluniau datblygu ym Mhorthcawl, Neuadd y Dref Maesteg a Hybiau Menter i greu gweithle busnes newydd, gan geisio cyllid ar gyfer rhaglen ailddatblygu i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydlynus<br>✓ Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |
| Ymgysylltu â'r perchnogion i fynd i'r afael â phroblemau adeiladau sy'n wag yn hirdymor. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Cydlynus |

# Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

## Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirionedd ol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Canran y boblogaeth o oedran gweithio sydd mewn cyflogaeth [uwch yn well] | 71.3% | 71.4% | Cynnydd ar ffigur gwirionedd ol 2018-19 |
| Canran y bobl sy'n weithgar yn economaidd rhwng 16 a 64 mlwydd oed [uwch yn well] | Dangosydd newydd ar gyfer 2018-19 | 73.2% | Cynnal ffigur gwirionedd ol 2018-19 |
| Cyfanswm y prentisiaid a gyflogir ar draws y sefydliad [uwch yn well] | 31 | 17 | 25 |
| Nifer y prentisiaethau a gymerwyd gan blant sy'n derbyn gofal [uwch yn well] | 0 | 1 | 1 |
| Canran y disgyblion sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 yn yr Awdurdod a adnabuwyd fel rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn Ystadegau Arolygon Cyrchfannau Blynyddol Gyrfa Cymru [is yn well] | 1.7% | 1.5% | 1.3% |
| Canran yr holl bobl ifanc sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth<br>a) 12 mis<br>b) 24 mis ar ôl gadael gofal [uwch yn well] | a) 60.5%<br>b) 46.7% | a) 60%<br>b) 60% | a) 60%<br>b) 60% |
| Canran y rhai sy'n 16-64 mlwydd oed nad oes ganddynt gymwysterau [is yn well] | 11.3% | Amh. | <11.3% |
| Canran yr ysgolion sy'n cwrdd â'r Mesur Dysgu a Sgiliau o ran y pynciau a gynigir yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ar ôl 16 [uwch yn well] | 100% | 100% | 100% |
| Nifer y cyfranogwyr yn rhaglen Cyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cael cyflogaeth [uwch yn well] | Amh. | Dangosydd newydd ar gyfer 2019-20 | Sefydlu Llinell Sylfaen |
| Gwerth Ychwanegol Gros y pen [uwch yn well: data a gyhoeddwyd flwyddyn ar ei hôl hi] | Amh. | Dangosydd newydd ar gyfer 2019-20 | Cynnydd ar ffigur gwirionedd ol 2017-18 |

## Creu amodau ar gyfer twf a menter

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirionedd ol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gwariant blynyddol gan dwristiaid [uwch yn well] | £344.2 miliwn | £351.1 miliwn | Uwch na ffigur gwirionedd ol 2018-19 |
| Nifer y busnesau newydd [uwch yn well] | Dangosydd newydd ar gyfer 2018-19 | 536 | Uwch na ffigur gwirionedd ol 2018-19 |
| Nifer y busnesau sy'n weithredol [uwch yn well] | 4,085 | 4,086 | Uwch na ffigur gwirionedd ol 2018-19 |
| Canran deiliadaeth unedau cychwynnol sy'n eiddo'r Cyngor [uwch yn well] | Dangosydd newydd ar gyfer 2018-19 | 90% | Cynnal ffigur gwirionedd ol 2018-19 |

## Creu cymunedau llwyddiannus

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr ymwelwyr â chanol trefi – nifer ar gyfer:<br>a) Pen-y-bont ar Ogwr<br>b) Porthcawl [uwch yn well] | a) 7.1 miliwn<br>b) 2.6 miliwn | a) 7.3 miliwn<br>b) 2.6 miliwn | a) 7.2 miliwn<br>b) 2.5 miliwn |
| Nifer y lleoliadau gwag mewn canol trefi<br>a) Pen-y-bont ar Ogwr<br>b) Maesteg<br>c) Porthcawl<br>ch) Pencoed [is yn well] | a) 66<br>b) 9<br>c) 10<br>ch) Amh. | a) 66<br>b) 9<br>c) 10<br>ch) 6 | a) 66<br>b) 9<br>c) 10<br>ch) 6 |
| Gwerth ariannol prosiectau adfywio canol trefi a ariennir yn allanol sydd ar waith / yn cael eu datblygu [uwch yn well] | £21.25 miliwn | £15 miliwn | £13 miliwn |

# Amcan Llesiant 2:
# Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol

Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid, gan gynnwys y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n gofalwyr, i gymryd camau cynnar i ostwng nifer y bobl sy'n dod, neu i atal pobl rhag dod, yn agored i niwed neu'n ddibynnol ar y Cyngor a'i wasanaethau. Byddwn yn cefnogi unigolion a chymunedau i fod yn gydnerth a'u galluogi i ddatblygu datrysiadau i ddiwallu anghenion a mwynhau bywyd annibynnol cymaint ag y bo modd.

## Ein nodau llesiant

- Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y meant yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth.
- Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddatblygu cydnerthedd cymunedol.

## Pam y mae hyn yn bwysig

Gall rhoi'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth priodol yn gynnar helpu pobl a'u teuluoedd i aros gyda'i gilydd. Gwyddom fod oedolion a phlant yn cael budd o amgylchedd teuluol cefnogol diogel. Mae cefnogi unigolion a theuluoedd i ffynnu yn ei gwneud yn llai tebygol y bydd eu sefyllfa yn gwaethygu ac y byddant yn dod yn ddibynnol ar wasanaethau'r cyngor.

Mae'r dull hwn yn gynaliadwy yn economaidd ac yn hyrwyddo canlyniadau cymdeithasol a phersonol cadarnhaol. Rydym yn ymrwymedig i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n dda i ddinasyddion y fwrdeistref sirol fel eu bod wedi'u harfogi'n well i reoli sefyllfaoedd eu hunain a bod gwasanaethau'r cyngor yn gallu canolbwyntio ar y rhai â'r anghenion mwyaf.

Mae ymgynghoriad, cyfranogiad a chyd-ddatblygiad yn allweddol i greu dyfodol o wasanaethau cynaliadwy, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn o alw cynyddol a llai o adnoddau. Mae gweithio gyda'n defnyddwyr gwasanaeth yn ein helpu i dargedu gwasanaethau yn well at le maent yn cael yr effaith fwyaf. Trwy adeiladu ar ein hanes o weithio gyda'r trydydd sector, y sector dielw a'r sector preifat, gallwn gynorthwyo cymunedau i ddatblygu eu dulliau eu hunain o fynd i'r afael â materion lleol a diwallu anghenion pobl yn lleol.

## Ein Rhaglenni Allweddol i gefnogi'r amcan llesiant hwn

- Ailfodelu Gofal Cymdeithasol
  - Byddwn yn parhau â'r rhaglen sylweddol hon o ail-gomisiynu gofal cartref i oedolion, datblygu gofal ychwanegol a gwasanaethau gwybodaeth a chynghori i bobl a'u gofalwyr.
  - Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i greu Canolfan Diogelu Amlasiantaeth yn un pwynt cyswllt ar gyfer yr holl bryderon ynghylch diogelu.
  - Rydym yn cyflwyno modelau newydd o ofal preswyl ar gyfer plant a phobl ifanc i'w gwneud yn fwy hyblyg ac effeithiol.

- Rydym yn bwrw ymlaen â'n hymgyrch i recriwtio mwy o ofalwyr maeth i ofalu am blant a phobl ifanc ag anghenion amrywiol iawn.

- Rydym yn cefnogi mentrau a arweinir gan y gymuned trwy ein cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol.

- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu canolfannau iechyd a llesiant cymunedol.
- Trosglwyddo Asedau Cymunedol – Byddwn yn trosglwyddo asedau i gymunedau er mwyn iddynt eu rheoli'n gynaliadwy, gan wneud y defnydd gorau o'r asedau yr ydym yn eu cadw.

## Pwy fydd yn ein helpu?

Pobl sy'n derbyn gwasanaethau, eu gofalwyr a'u teuluoedd, dinasyddion Pen-y-bont ar Ogwr; partneriaid rhanbarthol; partneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus; y trydydd sector a'r sector preifat.

## Y camau y byddwn yn eu cymryd i fodloni ein hamcanion llesiant

| I roi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Parhau i wella sut y mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth da i'r cyhoedd, gan gynnwys cynyddu'r cymorth sydd ar gael drwy gydgysylltwyr cymuned lleol. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Iachach<br>✓ Mwy Cyfartal<br>✓ Cydlynus |
| Parhau i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a chymunedau yn y gwaith o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau. | ✓ Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang<br>✓ Llewyrchus<br>✓ Iachach<br>✓ Mwy Cyfartal<br>✓ Cydlynus |

| I leihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Cefnogi datblygiad cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a llesiant cymunedol ar gyfer ein trigolion, ar y cyd â phartneriaid iechyd. | ✓ Iachach<br>✓ Mwy Cyfartal<br>✓ Cydlynus |
| Sefydlu model newydd o ddarpariaeth breswyl ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a cheisio diwallu eu hanghenion unigol yn y ffordd orau bosibl, gan gynnwys cymorth y tu hwnt i 18 mlwydd oed drwy gynnig llety arbennig. | ✓ Iachach<br>✓ Mwy Cyfartal Cydlynus |
| Cwblhau model gwasanaeth pontio i helpu plant anabl i gamu i fyd oedolion yn esmwyth. | ✓ Mwy Cyfartal |
| Gweithio gydag aelwydydd a phartneriaid i helpu i atal digartrefedd. | ✓ Mwy Cyfartal<br>✓ Cydlynus |
| Cefnogi'r rhai hynny sy'n gadel gofal i sicrhau llety priodol iddynt. | ✓ Mwy Cyfartal<br>✓ Cydlynus |
| Gweithio gyda pherchnogion i droi eiddo gwag yn gartrefi i helpu i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi sydd ar werth ac i'w rhentu. | ✓ Iachach<br>✓ Cydlynus |
| Cynyddu ymgysylltiad partneriaid, gan gynnwys ysgolion, yn y defnydd o brosesau'r Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) a'r Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), sy'n ceisio sicrhau y nodir anghenion yn gynnar a bod cymorth yn cael ei roi i blant a theuluoedd. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Iachach<br>✓ Mwy Cyfartal |

| | |
|---|---|
| Drwy ddilyn ein hegwyddor "Un Cyngor", sicrhau bod yr holl wasanaethau sydd ar gael yn gweithio gyda'i gilydd yn well i roi cymorth di-dor i blant sy'n agored i niwed pan fydd ei angen a'u hatal rhag dod yn blant sy'n derbyn gofal. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Iachach<br>✓ Mwy Cyfartal |

| I weithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddatblygu cydnerthedd cymunedol, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid a'r trydydd sector i gryfhau cymunedau ac i nodi'r ffordd orau o ddarparu gwasanaethau yn lleol. | ✓ Cydnerth<br>✓ Cydlynus<br>✓ Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |
| Galluogi grwpiau cymunedol a'r trydydd sector i fod â mwy o lais a rheolaeth dros asedau cymunedol. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Cydlynus<br>✓ Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu |

## Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

### Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y maent yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Canran yr<br>a) oedolion a<br>b) plant<br>a dderbyniodd gyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ystod y flwyddyn [uwch yn well] | a) 63.67%<br>b) 71.35% | a) 50%<br>b) 70% | a) 65%<br>b) 75% |
| Canran y bobl sy'n fodlon â'r gofal a'r cymorth a gawsant<br>a) Plant rhwng 7 a 17 oed<br>b) Oedolion 18+ oed [uwch yn well] | a) 84.09%<br>b) 85.97% | a) 80%<br>b) 80% | a) 85%<br>b) 85% |
| Canran yr oedolion a gwblhaodd cyfnod o ail-alluogi a, chwe mis yn ddiweddarach:<br>a) sydd â phecyn llai o ofal a chymorth neu<br>b) sydd heb becyn gofal a chymorth<br>[uwch yn well] | a) 70.64%<br>b) 58.27% | a) 62%<br>b) 60% | a) 70%<br>b) 60% |

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioned dol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Nifer y bobl sydd wedi'u hailgyfeirio o wasanaethau prif ffrwd i'w helpu i aros yn annibynnol am gymaint o amser â phosibl [uwch yn well] | 973 | 400 | 1000 |

## Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirione ddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Canran y plant a gefnogwyd i barhau i fyw gyda'u teuluoedd [uwch yn well] | 61.64% | 65% | 65% |
| Canran y plant a gafodd ymyraethau Cysylltu Teuluoedd yn ystod y flwyddyn ac a oedd yn parhau i fod allan o'r system ofal ar 31 Mawrth y flwyddyn honno [uwch yn well] | 95% | 85% | 85% |
| Canran y cynlluniau cymorth a gwblhawyd gan TAF (Tîm o Amgylch y Teulu) sy'n dod i ben â chanlyniadau llwyddiannus [uwch yn well] | 74% | 70% | 72% |
| Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn [is yn well] | 10.94% | 12% | 12% |
| Canran yr unigolion a drafodwyd yn y Panel Pontio sydd â chynllun pontio ar waith erbyn eu bod yn 16/17 oed [uwch yn well] | 100% | 100% | 100% |
| Canran y bobl sy'n cyflwyno'u hunain yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref, y mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol derfynol dros ddarparu llety priodol iddynt [is yn well] | 9.42% | 12.85% | 11.85% |
| Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag dod yn ddigartref | 68.6% | 75.17% | 70% |
| Canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi bod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn [is yn well] | 13.79% | <13% | <13% |
| Canran yr anheddau preswyl sector preifat a fu'n wag am fwy na chwe mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol [uwch yn well] | 3.48% | 7.86% | 5% |
| Nifer y cartrefi newydd a grëwyd o ganlyniad i ailfeddiannu eiddo gwag [uwch yn well] | dim | 5 | 5 |
| Canran y bobl sy'n credu y gallant fyw yn fwy annibynnol o ganlyniad i'r Grant Cyfleusterau Anabledd a dderbyniwyd ar gyfer eu cartref [uwch yn well] | 87.7% | 75% | 80% |

## Gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddatblygu cydnerthedd cymunedol

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Nifer yr oedolion a gafodd wasanaeth a ddarparwyd trwy fenter gymdeithasol, cwmni cydweithredol, gwasanaeth a arweinir gan ddefnyddwyr neu sefydliad trydydd sector yn ystod y flwyddyn [uwch yn well] | 379 | 370 | 480 |
| Nifer yr asedau sy’n eiddo i’r Cyngor a drosglwyddwyd i’r gymuned i’w rhedeg [uwch yn well] | dim | 2 | 5 |

## Amcan Llesiant 3:
# Defnyddio adnoddau'n ddoethach

Mae hyn yn golygu y byddwn yn sicrhau bod ein holl adnoddau (y rhai ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl ac yn rhoi cymorth i ddatblygu adnoddau ledled y gymuned a all helpu i wireddu amcanion llesiant y Cyngor.

## Ein Nodau Llesiant

- Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.
- Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ail-ddylunio ein systemau a'n prosesau.
- Gweithio ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar asedau cyhoeddus.
- Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid.

## Pam y mae hyn yn bwysig

Mae'r Cyngor wedi gwneud gostyngiadau i'w gyllideb gwerth £30 miliwn yn ystod y tair blynedd diwethaf ac rydym yn disgwyl gwneud gostyngiadau pellach o ryw £30 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Rydym yn rhedeg allan o opsiynau 'hawdd' i wneud arbedion cyllidebol, felly bydd angen gwneud penderfyniadau mawr am yr hyn y byddwn yn ei ddarparu ac na fyddwn yn ei ddarparu pan fydd y gyllideb yn cael ei phennu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd angen hefyd i ni barhau i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau posibl o weithio gyda phartneriaid i ddarparu gwasanaethau rheng flaen wrth gyflawni'r arbedion arfaethedig hyn.

## Ymgynghori

Cynhaliwyd ymgynghoriad blynyddol 'Llunio Dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr' gennym gyda rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys amrywiaeth eang o ddinasyddion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ysgolion, aelodau cabinet / cynghorwyr CBSPAO, busnesau lleol, y trydydd sector, staff y cyngor, cynghorau tref a chymuned, sefydliadau partner, grwpiau cymunedol a chydraddoldeb, gwasanaethau/cynghorau ieuenctid, a'r cyfryngau lleol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr am eu safbwyntiau ar amrywiaeth o gynigion cyllidebol sy'n cael eu hystyried. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd i'r dreth gyngor a'r meysydd gorau i ganolbwyntio ein gwario. Ysgolion, gofal pobl hŷn a gwasanaethau i bobl anabl oedd y meysydd mwyaf poblogaidd. Er ein bod yn parhau i gymryd safbwyntiau dinasyddion i ystyriaeth wrth flaenoriaethu ein hadnoddau cyfyngedig, mae ariannu awdurdodau lleol yn y dyfodol hirdymor yn parhau i fod yn anodd ac ni allwn beryglu ein gallu i gyflawni ein dyletswyddau statudol. Rydym yn parhau i weithio ar ail-lunio rhai gwasanaethau i sicrhau y gall Pen-y-bont ar Ogwr ymateb i'r heriau hyn.

## Rhaglenni Allweddol i gefnogi'r amcan llesiant hwn

- Y Rhaglen Trawsnewid Digidol – mae'r rhaglen hon yn ceisio newid y ffordd yr ydym yn gweithredu i alluogi cwsmeriaid i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a gwasanaethau ar-lein.

- Rhesymoli ystad y Cyngor – mae'r rhaglen hon yn ymwneud â gwaredu asedau'r cyngor, trosglwyddo asedau i gymunedau eu rheoli, a gwneud y defnydd gorau o'r asedau y byddwn yn eu cadw.

- Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – mae'r rhaglen hon yn buddsoddi mewn cyfundrefn addysg gynaliadwy ac mewn adeiladau ysgolion sy'n lleihau costau a'u hôl-troed carbon.

## Pwy fydd yn ein helpu?

Cyflogeion; Ysgolion; Contractwyr; Undebau Llafur

## Camau y byddwn yn eu cymryd i gyflawni ein nodau llesiant

| I gyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Gweithredu'r gostyngiadau cyllideb a gynlluniwyd a nodwyd yng nghyllideb 2018-19. | ✓ Llewyrchus |

| I wella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ailddylunio ein systemau a'n prosesau, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Cyflawni ein rhaglen trawsnewid digidol fel y gall dinasyddion ddefnyddio ein system ar-lein i reoli eu treth gyngor a'u cyfrifon budd-daliadau tai a chyflawni arbedion ariannol. | ✓ Llewyrchus |
| Awtomeiddio ein prosesau mewnol mwyaf cyffredin er mwyn lleihau costau trafodion a symleiddio prosesau. | ✓ Llewyrchus |

| I weithio ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar asedau cyhoeddus, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Darparu digon o leoedd mewn ysgolion yn yr ardaloedd iawn ac mewn ysgolion newydd ac wedi eu gwella drwy ddarparu Ysgolion yr 21ain Ganrif o dan Raglen Moderneiddio Ysgolion y Cyngor. | ✓ Cydnerth<br>✓ Iachach<br>✓ Cydlynus |
| Rhesymoli ystad weinyddol y Cyngor ymhellach er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o lai o swyddfeydd craidd ac yn lleihau nifer yr eiddo ar brydles yr ydym yn talu rhent amdanynt ar hyn o bryd, erbyn mis Mawrth 2020. | ✓ Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang |
| Datblygu dull mwy masnachol o reoli asedau a gwasanaethau'r Cyngor. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |
| Sicrhau bod y strwythur Landlordiaid Corfforaethol wedi ei ymsefydlu'n llawn er mwyn sicrhau y caiff ystad Eiddo'r Cyngor ei rheoli a'i chynnal mewn modd mwy cydlynol ac effeithlon. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Iachach |
| Marchnata'r rhan o safle Waterton a fydd yn cael ei gwacáu yn rhannol ar gyfer datblygiad tai o dan gynllun Parc Afon Ewenni. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Iachach |
| Gweithredu mesurau lleihau carbon a defnydd o ynni a hyrwyddo arferion da ym mhob un o'n hadeiladau cyhoeddus. | ✓ Cydlynus<br>✓ Cyfrifol ar Lefel Fyd-eang<br>✓ Cydnerth |
| Adolygu gwariant cyfalaf i sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag amcanion corfforaethol. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |

| I ddatblygu'r diwylliant a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid, byddwn yn | I greu Cymru sy'n: |
|---|---|
| Cefnogi rheolwyr i arwain staff drwy newid sefydliadol. | ✓ Cydnerth |
| Darparu cyfleoedd dysgu a datblygu i staff fel y gallant ddiwallu anghenion gwasanaethau yn y dyfodol. | ✓ Llewyrchus<br>✓ Cydnerth |
| Gwella a hyrwyddo ffyrdd o gynyddu nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau. | ✓ Cydnerth<br>✓ Cydlynus<br>✓ Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>✓ Mwy Cyfartal |
| Datblygu gallu'r Cyngor i ymgysylltu â'r cyhoedd trwy gyfryngau cymdeithasol. | ✓ Cydlynus<br>✓ Cydnerth<br>✓ Mwy Cyfartal |

# Sut y byddwn ni'n gwybod ein bod yn llwyddo?

## Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Canran y gostyngiadau cyllideb a gyflawnwyd [uwch yn well] | 69% | 100% | 100% |

## Gwella effeithiolrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ailddylunio ein systemau a'n prosesau

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Nifer y gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein [uwch yn well] | Dim | 5 | 3 |

## Gweithio ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar asedau cyhoeddus

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Canran y lleoedd ysgol gwag mewn<br>a) ysgolion cynradd<br>b) ysgolion uwchradd [is yn well] | a) 5.21%<br>b) 20.5% | a)10%<br>b)18% | a)10%<br>b) 18% |
| Cyrraedd y targed ar gyfer derbyniadau cyfalaf [uwch yn well] | £452,875 | £4 miliwn | £2.8 miliwn |
| Canran y cynilion cyllideb arfaethedig o £500,000 a sicrhawyd [uwch yn well] | Amh. | 100% | 100% |
| Canran adeiladau gweithredol CBSPAO sy'n sicrhau cydymffurfiad statudol llawn [uwch yn well] | | Dangosydd | 100% |

| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| | | newydd ar gyfer 2019-20 | |
| Canran y newid yn yr allyriadau carbon yn y stoc o adeiladu cyhoeddus annomestig o'i chymharu â'r flwyddyn flaenorol [uwch yn well] | 6.46% | 6.46% | 6.46% |
| Incwm a grëwyd gan bortffolio eiddo anweithredol y Cyngor [uwch yn well] | £25,000 | £25,000 | £25,000 |


## Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid


| Dangosyddion Llwyddiant | Gwirioneddol 2017-18 | Targed 2018-19 | Targed 2019-20 |
|---|---|---|---|
| Nifer y staff sy'n manteisio ar archwiliadau iechyd yn y gwaith [uwch yn well] | Amh. | Dangosydd newydd ar gyfer 2019-20 | Cynnydd ar ffigur gwirioneddol 2018-19 |
| Canran y cyflogeion sy'n cyflawni modiwlau e-ddysgu [targed is gan fod staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol] | 50.2% | 45% | 25% |
| Nifer yr achosion o ryngweithio â dinasyddion ar y cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol (Facebook a Twitter) [uwch yn well] | 69,414 | Cynnydd o 5% ar ffigur gwirioneddol 2017-18 (76,355) | Cynnydd o 5% ar ffigur gwirioneddol 2018-19 |
| Nifer sy'n cymryd rhan yn yr Arolwg Staff [uwch yn well] | Amh. | Dangosydd newydd ar gyfer 2019-20 Sefydlu llinell sylfaen | Cynnydd ar ffigur gwirioneddol 2018-19 |
| Cyfran y staff sy'n nodi drwy'r arolwg eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf gyda'r datganiadau:<br>a) Rwy'n credu bod pob adran yn gweithio tuag at yr un nod cyffredin<br>b) Rwy'n fodlon gyda CBSPAO fel cyflogwr<br>c) Mae gweithio yma yn gwneud i mi fod eisiau perfformio hyd eithaf fy ngallu<br>ch) Rwy'n credu bod CBSPAO yn gwerthfawrogi syniadau a safbwyntiau ei gyflogeion<br>d) A ydych chi'n credu bod cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu dwy ffordd i drafod a chodi syniadau a phroblemau? [uwch yn well] | Amh. | Dangosydd newydd ar gyfer 2019-20 Sefydlu llinell sylfaen | Cynnydd ar ffigur gwirioneddol 2018-19<br><br>a) >35%<br>b) >59%<br>c) >69%<br>ch) >31%<br>d) >59% |

# Adran 5:: rheoli **ein Cyllideb**


Mae'r siartiau isod yn amlinellu ein cynlluniau incwm a gwariant ar gyfer 2019-20.

£420.07 miliwn yw incwm refeniw gros y Cyngor ar gyfer 2019-20.




Yn ogystal â gwario arian ar ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae’r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd, gwella asedau a’r seilwaith, cynyddu asedau neu ddarparu grantiau cyfalaf i eraill. £36.157 miliwn yw’r gwariant cyfalaf arfaethedig ar gyfer 2019-20.





Mae’r siart (uchod) yn darparu manylion y meysydd gwasanaeth lle y bwriedir gwario cyfalaf ac (isod) sut y bydd y gwariant yn cael ei ariannu yn ystod y flwyddyn.




Mae gan yr awdurdod gyllideb refeniw net o £270.809 miliwn sy'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei Amcanion Llesiant corfforaethol, ei wasanaethau craidd a'i swyddogaethau statudol. Caiff y gyllideb net ei chyllido gan y Grant Cymorth Refeniw, Ardrethi Annomestig ac incwm y Dreth Gyngor. Nid yw'n cynnwys incwm o ffynonellau arian eraill megis grantiau eraill gan y llywodraeth, derbyniadau gan gwsmeriaid a chleientiaid, a llog sy'n ariannu'r gwariant refeniw gros.

Mae'r siart isod yn darparu manylion am sut y mae'r gyllideb refeniw net wedi'i dyrannu ar gyfer 2019-20.



# Adran 6: Democratiaeth a Phartneriaeth

## Sut mae'r Cyngor yn Gweithio




### Cyngor

Mae'r Cyngor llawn wedi ei gyfansoddi o 54 o gynghorwyr yn cynrychioli 39 o wardiau ac mae'n cyfarfod i gymeradwyo polisïau strategol allweddol a phennu cynllun corfforaethol a chyllideb y Cyngor. Mae'r rheolau ar gyfer sut y mae'r Cyngor yn gweithredu wedi eu hysgrifennu yng nghyfansoddiad y Cyngor.

### Cabinet

Mae'r Cabinet wedi ei gyfansoddi o chwech o gynghorwyr ac wedi'i gadeirio gan yr Arweinydd ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau a pholisïau mawr ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gan bob cynghorydd bortffolio sy'n cynnwys maes arbenigol.

### Goruchwylio a Chraffu

Mae hyn yn cynnwys pedwar pwyllgor sy'n ystyried penderfyniadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud ac yn gwneud yn siŵr eu bod wedi cael eu harchwilio'n briodol.

### Ymgynghori a Chyfranogiad

Mae aelodau Panel y Dinasyddion yn derbyn hyd at dri arolwg y flwyddyn ar wahanol feysydd gwasanaeth; mae pynciau wedi cynnwys glendid strydoedd, gwasanaeth cwsmeriaid, cyllideb y cyngor, toiledau cyhoeddus a llwybrau bysiau. Maent hefyd yn derbyn diweddariadau trwy ein cylchlythyr 'Fe ddywedoch chi, Fe wnaethom ni'.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo i wrando ac ymateb i sylwadau dinasyddion. Rydym yn sicrhau bod cyfleoedd i bobl leol gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau trwy

- Ein gwefan sydd newydd gael ei diwygio: www.bridgend.gov.uk
- Instagram yn www.instagram.com/BridgendCBC/
- Facebook www.facebook.com/CBSPenybont/
- Twitter: @CBSPenybont
- E-bost i talktous@bridgend.gov.uk

Rydym hefyd yn ymgysylltu â grwpiau penodol o bobl, fel y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau gofal cymdeithasol, i ofyn am eu safbwyntiau ar y gwasanaeth y maent yn eu derbyn.

Ymdrinniwyd â dros 143,000 o alwadau, 14,500 o negeseuon e-bost a 27,000 o ymweliadau gennym yn 2017-18, trwy ein Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid

# Gweithio gydag Eraill

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

- Fe'i gwnaed yn ofyniad cyfreithiol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i bob awdurdod lleol ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC Pen-y-bont ar Ogwr). Mae'r Cyngor yn un o grŵp o sefydliadau iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a llesiant lleol o'r sector cyhoeddus a'r sectorau dielw sy'n cydweithio i greu Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr well. Mae'r gwaith yn seiliedig ar gydweithredu ac ymgynghori â phobl a chymunedau lleol.
- Yn dilyn Asesiad Llesiant, mae BGC Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu Cynllun Llesiant i fynd i'r afael â'r materion sy'n dylanwadu ar lesiant hirdymor Pen-y-bont ar Ogwr.
- Is-fwrdd i BGC Pen-y-bont ar Ogwr yw Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n dod ag asiantaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n cydweithio i leihau trosedd, anhrefn ac ofn o drosedd at ei gilydd.

Mae Hwb Diogelu Aml Asiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr (MASH) yn dod â gweithwyr proffesiynol ynghyd i ddarparu gwasanaethau diogelu gan y cyngor a'n partneriaid ar draws y gymuned mewn un lle.
Mae MASH Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys pobl o:

- Wasanaethau plant ac oedolion
- Uned diogelu'r cyhoedd Heddlu De Cymru
- Addysg
- Tai
- Tîm cyffuriau ac alcohol cymunedol
- Gwasanaeth Prawf ac adsefydlu cymunedol
- Iechyd
- Gwasanaethau cymorth cynnar
- Gwasanaethau iechyd meddwl

- Partneriaeth gyda Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd yw Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon, gan gynnwys Safonau Masnach, Iechyd yr Amgylchedd, Trwyddedu a Thai Sector Preifat.


  Darparwyd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ar sail cytundeb cydweithredol ffurfiol gyda Chyngor Bro Morgannwg ers 2013. Oherwydd ei lwyddiant parhaus, cynigir y dylid sefydlu Gwasanaeth Archwilio Mewnol a Rennir Rhanbarthol, gan gyfuno CBS Merthyr Tudful, CBS Rhondda Cynon Taf a'r gwasanaeth a rennir presennol. Mae gwasanaeth Archwilio Mewnol effeithlon yn rhoi sicrwydd annibynnol fod prosesau rheoli risg, llywodraethu a rheoli mewnol y Cyngor yn gweithredu'n effeithiol.
- Yn wreiddiol yn un o'r partneriaid yn Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Bae'r Gorllewin, o fis Ebrill 2019 bydd gwasanaethau Awdurdod Lleol ac Iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn symud i Ranbarth Cwm Taf, a fydd yn parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau integredig.
- Rydym wedi ffurfio partneriaeth gyda GLL/Halo Leisure i reoli wyth o ganolfannau hamdden a phyllau nofio. Mae gennym bartneriaeth hirdymor gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen i redeg ein lleoliadau a'n gwasanaethau diwylliannol am 20 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaeth llyfrgelloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Neuadd y Dref Maesteg, Pafiliwn y Grand Porthcawl, pedair canolfan gymunedol, a Thŷ a Pharc Gwledig Bryngarw.
- Rydym yn un o ddeg awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru sy'n rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, sy'n rhaglen i sbarduno twf economaidd sylweddol yn y rhanbarth.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi’i rhoi ar waith i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwneud popeth y gallant i gyfrannu at wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae’r Ddeddf yn cyflwyno saith amcan llesiant hirdymor, yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith, ac yn diffinio pum ffordd o weithio y bydd angen i gyrff cyhoeddus feddwl amdanynt i ddangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy.

Mae’r diagram isod yn dangos sut y mae’r saith nod cenedlaethol, yr egwyddor datblygu cynaliadwy a’r pum ffordd o weithio yn cydblethu.




Yn y cynllun hwn, rydym wedi cyflwyno ymrwymiad y Cyngor i’r nodau llesiant ac wedi ymsefydlu egwyddorion datblygu cynaliadwy y Ddeddf. Rydym wedi gwneud yn siŵr, pan fyddwn yn gwneud penderfyniadau, ein bod yn cymryd i ystyriaeth yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy’n byw eu bywydau yng Nghymru ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

# Adran 7: ein **Cynllun Corfforaethol** ar **Dudalen**

| **Ein gweledigaeth** | **Un Cyngor yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Bywydau** | | |
|---|---|---|---|
| **Ein hamcanion llesiant** | **Cefnogi economi lwyddiannus** | **Helpu pobl i fod yn fwy hunanddibynnol** | **Defnyddio adnoddau'n ddoethach** |
| **Ein nodau llesiant** | Helpu pobl leol i ddatblygu sgiliau a manteisio ar gyfleoedd i lwyddo<br><br>Creu amodau ar gyfer twf a menter<br><br>Creu cymunedau llwyddiannus. | Rhoi mwy o ddewis a rheolaeth i bobl o ran pa gymorth y meant yn ei gael trwy ddarparu mynediad cynnar at gyngor a gwybodaeth<br><br>Lleihau'r galw trwy fuddsoddi mewn rhaglenni wedi'u targedu i roi cymorth ac ymyrryd yn gynnar<br><br>Gweithio mewn partneriaeth gyda'r trydydd sector, cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol i ddatblygu cydnerthedd cymunedol. | Cyflawni'r gostyngiadau yn y gyllideb a nodir yn y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig<br><br>Gwella effeithlonrwydd gwasanaethau a mynediad atynt trwy ailddylunio ein systemau a'n prosesau<br><br>Gweithio ar y cyd i fanteisio i'r eithaf ar asedau cyhoeddus<br><br>Datblygu'r diwylliant a'r sgiliau y mae eu hangen i ddiwallu anghenion sefydliad sy'n newid |
| **I gyflawni'r nodau hyn, byddwn yn** | Gweithio gydag ysgolion i gau'r bwlch mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim a disgyblion nad oes ganddynt yr hawl i brydau ysgol am ddim.<br><br>Gwella canlyniadau dysgwyr i grwpiau agored i niwed eraill a chynorthwyo pobl ifanc sy'n fwy abl a thalentog na'u cyfoedion i'w helpu i wireddu eu potensial llawn.<br><br>Buddsoddi yn ein cymunedau, gwella cyfleusterau presennol a darparu rhai newydd.<br><br>Sicrhau cymaint o fuddsoddiad a chyfleoedd busnes â phosibl i gynyddu ffyniant economaidd ar draws ein sir, i gynyddu gwerth twristiaeth, ac i gefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau diwylliannol, chwaraeon a busnes.<br><br>Llunio cyfleoedd cyflogaeth, datblygu gweithlu medrus i ddiwallu anghenion yn y dyfodol a gwella cyfleoedd i'r rhai sy'n ddi-waith, yn economaidd anweithgar, sy'n dioddef tlodi mewn gwaith neu'n wynebu rhwystrau i waith.<br><br>Parhau i ddatblygu cynlluniau a rhaglenni sy'n gadarnhaol yn amgylcheddol. | Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth da i'r cyhoedd, gan gynnwys y cymorth sydd ar gael trwy gydgysylltwyr cymunedol lleol.<br><br>Parhau i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau yn y gwaith o ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau.<br><br>Cefnogi datblygiad cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a llesiant cymunedol.<br><br>Sefydlu modelau newydd o ofal a chymorth sy'n diwallu anghenion datblygol plant sy'n derbyn gofal, gofalwyr ifanc, plant a phobl ifanc anabl, a phlant a phobl ifanc agored i niwed yn well.<br><br>Gweithio gydag aelwydydd a phartneriaid i helpu i atal digartrefedd, gan gynnwys cefnogi'r rhai sy'n gadael gofal i ddod o hyd i lety priodol.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid a'r trydydd sector i gryfhau cymunedau, darparu gwasanaethau yn lleol, a chael mwy o lais a rheolaeth dros asedau cymunedol. | Galluogi dinasyddion i ddefnyddio ein system ar-lein i reoli eu cyfrifon treth gyngor a budd-daliadau tai ac i sicrhau arbedion ariannol.<br><br>Awtomeiddio a symleiddio ein prosesau mewnol.<br><br>Optimeiddio lleoedd ysgol a darparu ein Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.<br><br>Datblygu dull mwy rhesymegol a masnachol o ymdrin ag asedau, ystad a gwasanaethau'r cyngor.<br><br>Gweithredu mesurau lleihau ynni a charbon a hybu arfer da yn ein holl adeiladau cyhoeddus.<br><br>Adolygu gwariant cyfalaf a gweithredu'r gostyngiadau cyllidebol a gynlluniwyd.<br><br>Cefnogi rheolwyr i arwain staff trwy newid sefydliadol.<br><br>Gwella a hyrwyddo mecanweithiau sy'n cynyddu ymatebion i ymgynghoriadau. |